Eco-Schools

Eco-Sgolion

# Arweiniad



Sefydlu eich Eco-Bwyllgor
Adolygiad Amgylcheddol
Cynllun Gweithredu
Monitro a Gwerthuso
Hysbysu a Chynnwys
Eco-Gôd
Cysylltu â'r Cwricwlwm

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

**Mae'r adnodd hwn wedi ei greu i helpu ysgolion i ddeall y broses Eco-Sgolion a sut i ennill Baner Werdd Eco-Sgolion. Mae hefyd yn llawn o enghreifftiau o'r ffordd y mae ysgolion eraill wedi dehongli proses saith cam Eco-Sgolion. Dylai hyn eich helpu i weithredu'r broses yn y modd mwyaf effithiol posibl yn eich ysgol.**

Mae prif meini prawf ar gyfer Gwobr y Faner Werdd yn cael eu egluro ar sleidiau unigol ar gyfer pob cam or broses. Y camau yma yw sylfeini'r broses Eco-Sgolion a dylid eu cyflawni cyn ymweld â'r wyth maes (sbwriel, lleihau gwastraff, ynni, dŵr, cludiant, tiroedd yr ysgol, byw'n iach a dinasyddiaeth fyd-eang).

Mae Gwobr y Faner Werdd yn seiliedig ar weithredu'r meini prawf hyn. Mae enghreifftiau ac awgrymiadau ar gael am bob un o'r meini prawf. Dylid nodi y bydd pob ysgol yn dehongli'r meini prawf mewn ffyrdd ychydig yn wahanol i'w gilydd ac rydym yn cydnabod bod pob ysgol yn unigryw. Y nod yw addasu'r broses er mwyn iddi weithio yn eich ysgol chi.

Mae croeso i chi bicio mewn ag allan o'r gwahanol ardaloedd o fewn yr adnodd yma, yn ôl eich angen am arweiniad neu ychydig o ysbrydoliaeth!

# Cynnwys


Proses Eco-Sgolion a'r saith cam 3

- Sefydlu eich Eco-Bwyllgor 4
- Cynnal eich Adolygiad Amgylcheddol 6
- Llunio eich Cynllun Gweithredu 8
- **Monitro** a **Gwerthuso** 10
- **Cynnwys** a **Hysbysu** 12
- Llunio **Eco-Gôd** 14
- Cysylltu â'r **Cwricwlwm** 16

Gwobrau 18




# Y Broses Eco-sgolion

**Rhaglen addysg amgylcheddol yw Eco-Sgolion a luniwyd i annog disgyblion i ymddiddori mewn materion amgylcheddol drwy gyfrwng saith o gamau sydd i gyd yn gysylltiedig â'i gilydd.**

Mae saith cam y Rhaglen Eco-Sgolion yn cynnwys sefydlu Eco-Bwyllgor - hwn fydd yn llywio'r cyfan.

Bydd yn cynnwys disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni a byddant hwythau wedyn yn sicrhau bod y chwe elfen arall yn cael eu gweithredu, ac yn annog holl aelodau cymuned yr ysgol i gymryd rhan.

Bydd yr ysgol wedyn yn cynnal adolygiad amgylcheddol, ac ar sail canlyniadau hwnnw bydd cynllun gweithredu'n cael ei ffurfio.

Yna bydd angen monitro a gwerthuso'r cynnydd. Rhaid hefyd hysbysu a chynnwys y gymuned ehangach. Bydd cynhyrchu 'Eco-Gôd', sef datganiad o'u stiwardiaeth amgylcheddol a'u hymrwymiad i'r rhaglen, yn helpu i ledaenu'r neges.

Dylid ymgorffori'r broses o fewn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod y broses yn gwreiddio drwy'r ysgol.






## Y Saith Cam: Sefydlu eich Eco-Bwyllgor

# Calon y broses

**Bydd y grŵp hwn yn cynrychioli safbwyntiau'r ysgol gyfan ac yn gweithredu fel y canolbwynt a fydd yn gyrru'r gwaith ymlaen ac yn trafod y cynnydd. Bydd yr Eco-Bwyllgor yn gweithio hefyd i gadw proffil y rhaglen Eco-Sgolion yn uchel.**

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Mae angen i'r Eco-Bwyllgor gyfarfod yn rheolaidd

- Gall oedolion a rhai nad ydynt yn ddisgyblion gymryd rhan, naill ai drwy fynychu cyfarfodydd neu drwy helpu gyda thasgau penodol

- Rhaid cadw cofnodion o'r cyfarfodydd

- Bydd yr Eco-Bwyllgor yn gwneud yn siŵr bod gweddill yr ysgol yn cael gwybod beth y maent wedi bod yn ei wneud neu'n ei drafod



# SEFYDLU EICH ECO-BWYLLGOR

Prif Feini Prawfy/Enghreifftiau ac Awgrymiadau

## Mae angen i'r Eco-Bwyllgor gyfarfod yn gyson

Roedd gan Ysgol Gynradd Rhostyllen angen codi proffil yr Eco-Bwyllgor. Cynhaliwyd etholiadau ac felly mae ganddyn nhw erbyn hyn yr un statws â Chyngor yr Ysgol. Mae gan aelodau'r Eco-Bwyllgor fwy o falchder yn eu rôl ac maen nhw'n fwy effeithiol.

» Mae Mae Ysgol Brynteg, Wrecsam yn cynnal Cyfarfod o'r Eco-Bwyllgor ar ddydd Mawrth ar gyfer yr aelodau etholedig. Maen nhw'n cyfarfod am hanner awr amser cinio i drafod sut mae pethau'n mynd ac i gynllunio'r camau nesaf. Ynghyd â'r cyfarfod hwn mae cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn ystod amser cinio ar ddydd Iau ac mae hwnnw'n agored i unrhyw un. Yn hwnnw cyflawnir tasgau ymarferol ac mae'n gyfle i unrhyw un godi unrhyw fater.

## Rhaid cadw cofnod o'r cyfarfodydd

Mae cadw cofnodion yn dasg bwysig iawn er mwyn medru cofio beth a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Mae Ysgol Gynradd Clawdd Wat yn cadw llyfr cofnodion gyda nodiadau bras am yr hyn a ddigwyddodd ym mhob cyfarfod.

» Roedd Ysgol Arbennig Hollies yn ei chael yn haws cadw cofnod o'u cyfarfodydd drwy gyfrwng recordydd fideo. Roedd modd felly i'r rhai a oedd wedi methu â bod yn bresennol gael gwybod beth a drafodwyd. Mae'r recordiadau fideo'n dystiolaeth o gyfraniad y plant ac yn dangos sut mae eu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol yn datblygu.

## Gall oedolion a rhai nad ydynt yn ddisgyblion fod yn gysylltiedig â'r peth

» Anfonodd Ysgol Gwaunmeisgyn gais i'r rhieni'n gofyn iddyn nhw a fedren nhw roi ychydig o'u hamser i helpu gyda'u diwrnod gwyrdd.

» Yn Ysgol Gynradd Llanedern mae cymorth y gofalwr wedi bod yn anhepgor i helpu i gyflawni targedau'r cynllun gweithredu. Cafwyd llawer iawn o wybodaeth gan y gofalwr ac mae cynorthwyo'r Eco-Bwyllgor hyd yn oed yn rhan o swydd ddisgrifiad y gofalwr yn Ysgol Gynradd Notais.

## Bydd angen I'r pwyllgor adrodd yn ol I weddill yr ysgol am yr hyn sydd yn digwydd / wedi digwydd ac ar fin digwydd. A chanmol a diolch

» Mae Ysgol Gynradd y Pîl yn ethol aelodau ychwanegol o F16 ar eu pwyllgor i gynrychioli'r dosbarth derbyn a disgyblion Bl1. Rhan o'u swyddogaeth yw cyflwyno'r syniadau iddynt a chasglu awgrymiadau ganddynt.

» Mae Eco-Bwyllgor Ysgol Gynradd Cwm Irfon yn cynnal gwasanaethau boreol yn rheolaidd. Maen nhw'n defnyddio'r cyfle hwn i gyflwyno adborth am unrhyw ddatblygiadau neu i lansio gwaith newydd.




# Y Saith Cam: Cynnal eich Adolygiad Amgylcheddol

## Cipolwg ar beth sy'n digwydd

Pwrpas yr adolygiad yw helpu'r Eco-Bwyllgor i feddwl am ffyrdd o geisio sicrhau bod yr ysgol yn lleihau ei heffaith ar yr amgylchedd. Trwy gynnal adolygiad cynhwysfawr bydd modd sicrhau na fydd unrhyw feysydd sylweddol o ran effaith yn cael eu hanwybyddu. Yna, ar sail canlyniadau'r adolygiad, bydd Cynllun Gweithredu'n cael ei lunio.

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Dylid adolygu'r wyth maes bob blwyddyn
- Rhaid i'r disgyblion fod yn rhan o'r gwaith adolygu
- Dylid trafod y canlyniadau ar ddiwedd yr adolygiad



# CYNNAL EICH ADOLYGIAD AMGYLCHEDDOL

Prif Feini Prawf y /Enghreifftiau ac Awgrymiadau

## Dylid adolygu'r wyth maes bob blwyddyn

Dyma wyth maes Eco-Sgolion: Sbwriel, Gwastraff, Ynni, Dŵr, Cludiant, Tiroedd yr Ysgol, Byw'n iach, Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae dechrau'r flwyddyn academaidd yn amser delfrydol i gynnal adolygiad o'r rhain er mwyn llunio cynllun gweithredu ar sail y canlyniadau.

Beth am rywbeth gwahanol? Mae mwy na 50 o wledydd yn cymryd rhan yn Eco-Sgolion ac felly byddai modd chwilio er mwyn cael gweld sut maen nhw'n mynd ati.

» Rhoddodd Ysgol Gynradd Plasnewydd gyfrifoldeb i bob dosbarth am archwilio un maes ar gyfer yr adolygiad. Roedd y disgyblion felly'n medru edrych yn fanwl ar y meysydd a thrafod syniadau i'w cyflwyno i'r Eco-Bwyllgor.

## Rhaid i'r disgyblion fod yn rhan o'r gwaith adolygu

Mae'n bwysig i'r disgyblion ddeall mai dogfen i'w helpu i ganfod pa feysydd sydd angen eu gwella yw'r Adolygiad Amgylcheddol ac nid prawf. Nid medru ateb pob cwestiwn yn gadarnhaol yw'r nod ond tynnu sylw at y mannau lle mae angen gweithredu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r blwch pwyntiau gweithredu er mwyn archwilio'r heriau ymhellach.

» Byddai modd i'r adolygiad gael ei gynnal gan yr Eco-Bwyllgor yn gweithio mewn parau ar bob maes. Penderfynodd Ysgol Gyfun Ogwr sefydlu is-grwpiau i weithio ar y gwahanol destunau a chyflwyno'r holl ganfyddiadau i'r Eco-Bwyllgor.

## Dylid trafod y canlyniadau ar ddiwedd yr adolygiad

Syniad da iawn yw trafod y canlyniadau gyda'r Uwch Dîm Rheoli. Mae ganddynt nodau eu hunain a gallech gydweithredu ar y rheini, ac mae'n bosibl y byddai mwy o gyfle felly i sicrhau adnoddau.

Gellid ysgrifennu syniadau y tynnwyd sylw atynt yn yr adolygiad amgylcheddol ar ddarn mawr o bapur, a'i ddangos ar hysbysfwrdd yr Eco-Bwyllgor. Yna rhoi sticer bach i bob disgybl i'w roi wrth y syniad y byddai'n dymuno ei weld yn cael ei roi ar y cynllun gweithredu. Byddai'r ysgol gyfan, felly, yn cael cyfle i gyfrannu.

Gallai aelodau'r Eco-Bwyllgor raddio'r awgrymiadau a ddaw o ganlyniadau'r Adolygiad Amgylcheddol yn ôl dull rancio diamwnd er mwyn blaenoriaethu eu targedau ar gyfer y cynllun gweithredu ac arddangos hynny ar eu hysbysfwrdd.

» Cynhaliwyd Eco adolygiad Ysgol Uwchradd Prestatyn am y flwyddyn 2011 ym Medi. Hwn fydd y mis o'r flwyddyn pan gynhelir yr adolygiad blynyddol. Yn ystod trafodaeth cyn cynnal yr adolygiad penderfynwyd defnyddio dull yr ysgol o roi adborth sef 'Dau dic a dymuniad' i gyflwyno gwybodaeth i weddill yr ysgol.

» Defnyddiodd Ysgol Our Lady of the Angels fap o'r ysgol i ddangos y mannau lle gellid gweithredu ar gyfer pob un o'r Meysydd . Yna cymharwyd adolygiadau diweddarach gyda rhai'r blynyddoedd cynt i ddangos y cynnydd.





# Y Saith Cam: Llunio eich Cynllun Gweithredu

## Gwneud i newid ddigwydd

Pam fod angen Cynllun Gweithredu? Mae'n bwysig iawn eich bod yn trefnu eich syniadau gan ffurfio cynllun gweithredu. Wrth greu'r cynllun byddwch yn medru sicrhau eich bod yn cynnwys nifer realistig o weithgareddau a gweithio allan sut i fonitro a mesur cynnydd eich gweithredoedd. Mae cynllun gweithredu CAMPUS yn helpu pawb i ganolbwyntio.

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Mae angen i'r Cynllun Gweithredu ddangos y gweithredoedd arfaethedig yn glir a sut y byddant yn cael eu cyflawni

- Mae angen iddo fod yn addas ar gyfer oed a gallu'r disgyblion (neu dylid cael fersiwn arall sydd yn addas)

- Mae angen iddo fod mewn fformat sydd yn ddealladwy i bob aelod arall o'r staff

- Rhaid sicrhau cefnogaeth y Pennaeth i'r Cynllun Gweithredu



# LLUNIO EICH CYNLLUN GWEITHREDU

Prif Feini Prawf y / Enghreifftiau ac Awgrymiadau

## Mae angen i'r Cynllun Gweithredu ddangos yn glir y gweithredoedd rydych yn eu cynnig a sut y bydd y gwaith yn cael ei wneud

Bydd creu Cynllun Gweithredu CAMPUS yn helpu i sicrhau'r cyfle gorau o lwyddo gyda'ch targedau. Dylai eich targedau fod yn:

C: Cyraeddadwy
A: Amserol
M: Mesuradwy
P: Penodol
U: Uchelgeisiol
S: Synhwyrol

Nid oes rhaid i'r Cynllun Gweithredu gynnwys yr wyth maes. Gwaith yr Eco-Bwyllgor yw blaenoriaethu gan benderfynu pa feysydd i weithredu arnynt yn gyntaf. Gellir targedu mwy o feysydd dros y blynyddoedd a gweithredu arnynt.

Gellid ysgrifennu'r Cynllun Gweithredu ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, gyda'r amserlen ar gyfer y gweithredoedd yn rhedeg dros flwyddyn.

» Cynllun Gweithredu am dymor sydd gan Ysgol Gynradd Llysfaen ac ychwanegir/-tynnir targedau ar ddechrau pob tymor.

## Bydd angen iddo fod yn addas ar gyfer oed a gallu'r disgyblion

» Mae gan yr Eco-Bwyllgor yn Ysgol Gwynedd, Sir y Fflint 'Goeden Dargedau' ar y cyd â'u Cynllun Gweithredu. Mae'r manylion i gyd yn y Cynllun Gweithredu ond mae'r Goeden Dargedau'n ei wneud yn fwy diddorol a hygyrch i'r ysgol gyfan.

» Yn ogystal â chynllun gweithredu manwl y staff aeth Ysgol y Babanod Llanfairfechan ati i greu map meddwl gyda'r aelodau ifanc o'r Eco-Bwyllgor i gynllunio eu gwaith.

## Rhaid i'r fformat fod yn ddealladwy i unrhyw aelod arall o staff

Drwy gyflwyno'r Cynllun Gweithredu mewn cyfarfod staff byddwch yn sicrhau bod pawb yn gwybod am eich targedau. Os bydd angen i aelod gwahanol o'r staff gymryd trosodd am unrhyw reswm bydd y person hwnnw'n dod i ddeall y broses yn hawdd.

Dylid gofyn i'r staff gyflawni rhai o'r targedau yn eu dosbarthiadau. Bydd hyn yn helpu i'w hymgorffori o fewn y cwricwlwm ac i gyflwyno ADCDF.

## Rhaid i'r Cynllun Gweithredu gael cefnogaeth y prifathro/athrawes

Bydd cynnwys cynllun gweithredu Eco-Sgolion yng nghynllun datblygu'r ysgol yn codi'r statws ac yn help i gyflwyno'r targedau i aelodau eraill o'r staff ac i'r llywodraethwyr.






## Y Saith Cam: Monitro a Gwerthuso

# Pa wahaniaeth ydyn ni wedi ei wneud?

**Pam Monitro a Gwerthuso? Er mwyn canfod a ydych yn llwyddo i gyflawni'r targedau sydd yn eich cynllun gweithredu rhaid monitro a mesur eich cynnydd. Bydd hynny'n caniatáu i chi werthuso llwyddiant eich gweithgareddau a chynllunio i wneud newidiadau er mwyn sicrhau eich bod yn dal i weithio tuag at gyflawni eich targedau.**

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Dylai'r monitro fod yn ystyrlon i'r disgyblion sydd yn ei weithredu ac yn briodol ar eu cyfer

- Rhaid i'r Eco-Bwyllgor drafod y cynnydd a wneir mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu ac, yn ddelfrydol, dylai'r ysgol gyfan ei drafod

- Dylai peth o'r gwaith monitro gael ei gyflawni fel rhan o'r gwaith dosbarth



# MONITRO A GWERTHUSO

Prif Feini Prawf y / Enghreifftiau ac Awgrymiadau

## Dylai fod yn ystyrlon ac addas i'r disgyblion sy'n gysylltiedig â'r peth

Mae'n bosibl y bydd ysgolion yn medru monitro targedau eu Cynllun Gweithredu eu hunain a monitro sefydliadau eraill. Bydd yr ysgolion sydd yn cymryd rhan yn arolwg Gwylio Adar yr Ardd blynyddol yr RSPB yn medru gweld a yw eu tiroedd yn denu mwy o adar a byddant yn cyfrannu hefyd ar arolwg cenedlaethol.

» Mae Eco-Sbïwyr Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn monitro'n ddyddiol i ganfod i ba raddau mae'r dosbarthiadau'n lleihau eu defnydd o ynni. Rhoddir golau gwyrdd os yw popeth wedi ei droi i ffwrdd, golau melyn os oes un ymlaen a choch os oes mwy nag un ymlaen. Yna cyfrifir y sgorau er mwyn gwobrwyo'r dosbarth gorau.

» Cynhaliodd Ysgol Gynradd Llysfaen Wythnos Werdd a chasglu ffonau, cetris inc, batris a deunyddiau eraill. Yn y ffordd syml honno casglwyd 265 kg o ddeunyddiau a fyddai fel arall wedi mynd i dirlenwi.

## Dylai ychydig o'r monitro cael ei wneud fel rhan o waith dosbarth

» Cynhaliodd disgbylion Blwyddyn 4 yn Ysgol Y Bannau astudiaeth ddosbarth er mwyn canfod pa fath o laeth roeddent yn ei yfed a faint oedd yn cael ei brynu ar y tro. Yna aethant ati i ddadansoddi'r canlyniadau ac awgrymu i'r rhieni y gallent brynu llaeth mewn cynwysyddion mawr er mwyn defnyddio llai o blastig a'i gael yn rhatach.

## Dylai cynnydd y Cynllun Gweithredu gael ei drafod gan yr Eco-Bwyllgor, ond yn ddelfrydol fel ysgol gyfan

» Mae Eco-Bwyllgor Ysgol Sant Elfod yn cadw cofnod o 'eco-sgôr' pob dosbarth, a medrant weld yn hawdd pa rai sydd yn gwneud yn dda a pha rai sydd angen ychydig mwy o help i ailgylchu a diffodd goleuadau etc.

» Cafodd Ysgol Gynradd Nottais gymorth eu gofalwr i fonitro. Roedd y gofalwr yn rhoi gwybod i'r Eco-Bwyllgor faint o fagiau duon oedd wedi eu hanfon i ffwrdd bob wythnos. Roedd hyn yn help i ganfod a oedd yr ymgyrch ailgylchu'n gweithio ai peidio.

» Mae dathlu llwyddiant yn bwysig iawn. Darganfu Ysgol Gwaelod Y Garth eu bod, drwy newid i negeseuon ebost a thestun, yn defnyddio 24 bocs yn llai o bapur bob blwyddyn. Dangosodd y pwyllgor yr effaith drwy roi 24 bocs ar bennau ei gilydd yn y neuadd yn ystod y gwasanaeth i'r ysgol gyfan.

» Roedd Ysgol Y Gadeirlan yn monitro eu gwastraff bwyd fel ysgol gyfan. Cofnodwyd faint o fwyd oedd yn cael ei daflu a dangoswyd y ffigurau yn y cantîn bob dydd.




## Y Saith Cam: Cynnwys a Hysbysu

# Cael pawb i gymryd rhan

**Pam Hysbysu a Chynnwys? Mae'n bwysig bod cymaint o bobl ag y bo modd yn gwybod am eich gweithgareddau ac yn cymryd rhan ynddynt. Wrth gael mwy o bobl yn cymryd rhan yn eich Eco-Weithredoedd bydd yr effaith a'r hwyl yn fwy!**

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Mae angen i'r ysgol gyfan wybod am y rôl mae'r Eco-Bwyllgor yn ei chwarae

- Dylai'r disgyblion i gyd gael cyfle i gyflwyno syniadau ac awgrymiadau os ydynt yn dymuno

- Dylai'r ysgol gyfan gael gwybod beth sydd yn y Cynllun Gweithredu Eco-Sgolion ac am y cynnydd

- Dylai'r gymuned ehangach gael gwybod am amcanion yr ysgol ac am bob cynnydd



# CYNNWYS A HYSBYSU

## ........ Prif Feini Prawf y/Enghreifftiau ac Awgrymiadau ........

### Mae angen i'r ysgol gyfan fod yn ymwybodol o rôl yr Eco-Bwyllgor

Ffordd hawdd o ddenu sylw pawb yw trefnu diwrnod i'r disgyblion a'r staff wisgo rhywbeth gwyrdd. Yn ystod y dydd byddai modd cynnal gweithgareddau sydd yn ymwneud â rhan o'r cynllun gweithredu.

### Dylai'r disgyblion gael cyfle i roi eu syniadau a'u hawgrymiadau ymlaen os ydynt yn dymuno gwneud hynny

» Mae'n anodd cael syniadau newydd o hyd, felly yn Ysgol Gynradd Willowbrook mae 'Bocs Eco-syniadau' wedi ei osod wrth hysbysfwrdd Eco-Sgolion yr ysgol. Er mwyn annog yr ysgol gyfan i gymryd rhan mae'r Eco-Bwyllgor yn cynnig gwobr am yr eco-syniad gorau. Maent yn trafod y syniadau ac yn ymateb i bob syniad a roddir yn y bocs, gan gynnig rhesymau os na fydd modd cynnwys rhyw syniad yn y cynllun gweithredu (e.e. rhy ddrud, dim gwir werth i'r amgylchedd).

### Rhaid i'r ysgol gyfan wybod beth sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Eco-Sgolion, a'r cynnydd sydd wedi'i wneud

» Yn Ysgol Iau Crynallt mae Eco-Fwrdd amlwg a lliwgar sydd yn cynnwys llawer o wybodaeth i ddod â'r Eco-Weithredoedd yn fyw. Yn Ysgol Gynradd yr Archddiacon Griffiths, yr Eglwys yng Nghymru, cynhaliwyd gwasanaeth gyda'r Eco-Bwyllgor yn dangos i weddill yr ysgol faint o ddŵr yr oeddent wedi ei arbed.

### Dylai'r gymuned leol gael ei hysbysu am amcanion yr ysgol, ac unrhyw gynnydd a wneir

» Cydweithiodd Ysgol Gynradd Rhydypennau â gwesty'r Hilton yn y ddinas er mwyn eu helpu i ddefnyddio llai o ynni. Drwy dderbyn y cyngor a roddodd yr Eco-Bwyllgor iddynt, llwyddodd y gwesty i arbed traean o'u bil trydan dros flwyddyn.

» Mae Ysgol Gynradd Maerdy yn anfon Eco-Awgrymiadau i rieni bob wythnos. Mae ysgolion eraill yn lledaenu'r neges drwy gyfrwng Cylchlythyrau, Gwefannau, Digwyddiadau cymunedol a Hysbysfyrddau.

» Mae Eco-Bwyllgor Abaty Nedd yn cynnal Wythnos Groundforce bob blwyddyn a gwahoddir rhieni a theidiau a neiniau i helpu i ddatblygu tir yr ysgol.

» Cynhaliodd Eco-Bwyllgor Ysgol Sant Ioan Fedyddiwr Adolygiad Amgylcheddol yn yr eglwys gerllaw. Yn sgil yr adolygiad cynigiwyd awgrymiadau ynglŷn â lleihau effaith amgylcheddol yr eglwys.




Y Saith Cam: Llunio Eco-Gôd

# Cynrychioli ein hamcanion

Pam bod angen Eco-Gôd? Mae Eco-Gôd yn ffordd hwyliog o grynhoi prif amcanion Eco-Bwyllgor yr Ysgol. Dylid ei gyflwyno mewn ffurf sydd yn ystyrlon i'r disgyblion a'r ysgol gyfan. Gellir ei ddefnyddio i godi proffil yr Eco-Bwyllgor a thargedau'r cynllun gweithredu a dylid ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn gyfarwydd.

## Y PRIF FEINI PRAWF

- Dylai'r disgyblion ddatblygu'r Eco-Gôd

- Dylid ei ddiwygio neu o leiaf ei adolygu bob blwyddyn

- Rhaid sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ymwybodol o'r Eco-Gôd a'r hyn mae'n sefyll drosto



# LLUNIO ECO-GÔD

**........ Prif Feini Prawf y/Enghreifftiau ac Awgrymiadau ........**

## Dylai'r disgyblion ddatblygu'r Eco-Gôd

» Penderfynodd Ysgol Gynradd Custom House Lane greu logo trawiadol a slogan slic.

» Cynhaliodd Ysgol Gynradd Llysfaen gystadleuaeth er mwyn i'r disgyblion i gyd gael cyfle i gyfrannu tuag at y cod:

**"ECO NEWYDDION !**

**Mae gennym ECO-gôd newydd! Mae'r Eco-Bwyllgor yn cynnal cystadleuaeth. Maen nhw am i chi ddylunio poster ar gyfer eco-gôd yr ysgol. Bydd y poster gorau'n cael ei gopïo a'i ddangos o amgylch yr ysgol. "**

## Dylid ei ddiwygio neu o leiaf ei adolygu bob blwyddyn

Os byddwch am adael eich cod yr un fath gallech ddylunio cefndir newydd neu newid y lluniau er mwyn codi ei broffil. Yna gallech ei ail-lansio mewn gwasanaeth i'r ysgol gyfan.

## Rhaid i'r ysgol gyfan wybod am yr Eco-Gôd

» Roedd Ysgol y Babanod, Shotton, Sir y Fflint yn awyddus i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn mabwysiadu'r Eco-gôd. Mae'r disgyblion yn ifanc iawn ac felly dewisodd yr Eco-Bwyllgor eiriau i'w cynnwys yn yr Eco-gôd a chafwyd help gan un o'r athrawon i'w troi'n gân. Mae'r disgyblion yn ei chanu'n aml i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

## Y Saith Cam: Cysylltu â'r Cwricwlwm




# Ei ddysgu!

Pam cysylltu â'r cwricwlwm? Drwy sicrhau bod y broses Eco-Sgolion yn cael ei gysylltu â chwricwlwm yr ysgol yn hytrach na'i gadw'n weithgaredd ar wahân ar gyfer y grŵp bach sydd ar yr Eco-Bwyllgor fe gyflwynir ADCDF. Mae hefyd yn sicrhau bod aelodau eraill o'r staff yn cefnogi'r gwaith. Bydd disgyblion yr ysgol gyfan yn deall sut yr ymdrinnir â phroblemau amgylcheddol real mewn sefyllfaoedd real.

### Y PRIF FEINI PRAWF

- Dylid ymdrin ag elfennau o Eco-Sgolion fel rhan o'r gwaith cwricwlwm
- Dylai mwy nag un dosbarth gymryd rhan



# CYSYLLTU Â'R CWRICWLWM

........ Prif Feini Prawfy/Enghreifftiau ac Awgrymiadau ........

## Dylid ymdrin ag elfennau o Eco-Sgolion fel rhan o'r gwaith cwricwlwm

» Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Herbert Thompson yn cael hwyl yn chwarae yn eu hardal chwarae rôl, sef siop Masnach Deg ac nid unrhyw siop, sydd yn gwerthu pob math o ddanteithion blasus a nwyddau Masnach Deg. Mae disgyblion mor ifanc ag oed meithrin yn medru adnabod a deall y symbol Masnach Deg.

» Dysgodd disgyblion Ysgol Gynradd y Tŷ Du am fioamrywiaeth wrth ddatblygu eu sgiliau TG a'u sgiliau llythrennedd i gynhyrchu fideo.

» Un o dargedau Cynllun Gweithredu Ysgol Iau Bodnant oedd hybu'r disgyblion i gerdded neu seiclo i'r ysgol. Blwyddyn 5 oedd yn trefnu popeth, o ymchwilio i'r llwybr gorau ar gyfer y daith, i gynllunio posteri a chofnodi faint o ddisgyblion a gerddodd neu a seiclodd i'r ysgol.

## Dylai mwy nag un dosbarth gymryd rhan

» Datblygodd disgyblion Ysgol Heol Y Cyw eu sgiliau entrepreneuraidd drwy sefydlu siop fwyd iach yn yr ysgol. Hwy oedd yn archebu, gwerthu a marchnata'r cynnyrch drwy'r ysgol gyfan.

» Mae Hanes yn cynnig llawer o gyfleoedd i gysylltu ag Eco-Faterion fel y dangosodd Ysgol Gynradd Ynysgedwyn drwy ddefnyddio llenni atal golau i hyrwyddo eu neges 'diffoddwch y golau'.

» Cyn i'r gwaith o adeiladu'r ardd ddechrau yn Ysgol Uwchradd St Joseph aeth disgyblion Bagloriaeth Cymru o'r 6ed dosbarth ati i brofi ansawdd y pridd. Mae Eco-Bwyllgor yr ysgol yn cadw llygad manwl ar y datblygiadau ac maent hefyd wedi gwahodd yr adrannau eraill i gyflwyno syniadau er mwyn sicrhau na fydd yn Eliffant Gwyn. Mae'r adrannau Saesneg a Drama wedi clustnodi'r ardal ddecio arfaethedig ar gyfer perfformiadau awyr agored a bydd yr adrannau Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth yn astudio'r fioamrywiaeth ac yn gwneud profion i weld pa gnydau fydd yn tyfu orau.

# Gwobrau

**Ar ol gofrestru ar raglen Eco-Sgolion, mae'r gwobrau cyntaf, sef Efydd ac Arian, yn hunain asesiad. Fel arfer, mae'n cymryd rhyw 18 mis i gasglu digon o dystiolaeth er mwyn ennill Y Faner Werdd 1af (written like 1st) a wedyn mae ofyn i ysgolion gwneud cais pob 2 flynedd tan ei fod wedi ennill 4 Baner Werdd, a elwir y Wobr Platinwm. Mae angen asesiad gyda phob cais ar gyfer y Faner Werdd.**

Ar ol i ysgol ennill Gwobr Platinwm, mae angen iddynt ail-geisio pob blwyddyn trwy ffurflen gais ar-lein.

## HUNAIN ASESIAD




Mae'r meini prawf ar gyfer Gwobr Efydd yn ffocysu ar adeiladu strwythyr Eco-Sgolion fel eich bod chi'n barod i mynd i'r afael â'r waith eco rydych chi'n bwriadu ei wneud.




Mae'r meini prawf ar gyfer Gwobr Arian yn adeiladu ar elfennau Eco-Sgolion a sefydlwyd gan y Wobr Efydd. Mae'n sicrhau eich bod yn gweithio ar y trywydd iawn tuag at eich Baner Werdd.

## ASESIR YN ALLANOL

Y Faner Werdd yw'r safon ryngwladol. Medrwch ceisio am y wobr yma ar ol i chi weithio trwy a chasglu tystiolaeth ar fodel y saith cam Eco-Sgolion.




Medrwch ennill y Wobr Platinwm (4ydd Baner Werdd) trwy ymrwymiad barhaus a dealltwriaeth tymor hir o'r daith Eco-Sgolion.



Eco-Schools

Eco-Sgolion

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn redeg Eco-Sgolion yng Nghymru.

35 Cathedral Rd, Cardiff CF11 9HB
029 2025 6767

**keepwalestidy.cymru**

**© Hawlfraint Cadwch Gymru'n Daclus 2016**
**Cedwir pop hawl,**